

Enghreifftiau o werthfawrogiadau

- Gwerthfawrogiad o 'Y Gerdd Werdd' gan Gwyneth Glyn (Lefel Is)
- Gwerthfawrogiad o 'Bws Ysgol' gan Gwion Hallam (Lefel Uwch)
- Cymharu Dwy Gerdd, sef 'Tro Gwael' (Gwennan Evans) ac 'Ar Lan yr Afon' (Tudur Dylan Jones)

*

1. Gwerthfawrogiad o 'Y Gerdd Werdd' gan Gwyneth Glyn (Lefel Is)

Mae 'Y Gerdd Werdd' gan Gwyneth Glyn yn gerdd sy'n annog pobl i ailgylchu eu sbwriel. Mae wedi ei hysgrifennu mewn mydr ac odl ac mae'n cynnwys pedwar pennill.

Yn y pennill cyntaf, mae'r bardd yn gofyn cyfres o gwestiynau rhethregol sy'n gwneud i ni feddwl yn fwy gofalus am ein harferion ailgylchu ni. Mae'r cwestiynau hyn yn dilyn yr un patrwm yn union wrth i'r bardd ailadrodd y geiriau 'Sgen ti', e.e.

'Sgen ti botel? Sgen ti bapur?

Sgen ti ganiau? Sgen ti dun?

Pwrpas y cwestiynau hyn yw siarad yn uniongyrchol â'r person sy'n darllen y gerdd. Dyma ffordd effeithiol iawn o dynnu a chadw ein sylw ni.

Mae'r ail bennill yn gofyn i ni gasglu'r holl bethau bach y mae'n bosib eu hailgylchu yn un pentwr, ac mae'r bardd yn defnyddio cymhariaeth i esbonio sut y bydd ailgylchu'n medru troi'r 'trugareddau' hyn yn drysor: 'fel mae'r machlud yn troi'n wawr'. Mae'r 'machlud' yn awgrymu'r diwedd, ond mae'r 'wawr' yn awgrymu dechrau newydd a gobeithiol.

Unwaith eto, yn y trydydd pennill mae'r bardd yn gofyn i ni weithredu, gyda'r berfau 'bwyda' a 'llanwa' yn rhoi'r cyfrifoldeb arnom ni i ailgylchu sbwriel. Ond, drwy ddefnyddio'r trosiad 'crochan hud' i ddisgrifio'r blwch ailgylchu, mae'n awgrymu bod rhywbeth mwy cyffrous a dirgel ynglŷn â'r broses. Mae'r ddwy linell olaf wedyn yn cynnig esiampl o'r hud ar waith, sef y modd y mae papur sydd wedi ei ailgylchu bellach yn cael ei ddefnyddio i greu llyfrau a chylchgronau newydd.

Mae tipyn o hwyl yn y pennill olaf, lle mae'r bardd yn awgrymu bod pob math o newidiadau'n bosib wrth ailgylchu. Mae'n defnyddio cyflythreniad yn 'degan digri' ac wedyn yn mwynhau chwarae â'r syniad bod modd i rywbeth 'sgwâr' droi mewn i rywbeth crwn. Drwy'r cyfan, mae'n ailadrodd y ferf 'tro', a hynny unwaith eto er mwyn pwysleisio ein cyfrifoldeb ni tuag at y blaned.

Mae'n cloi'r gerdd gyda throsiad anarferol a difyr iawn sy'n honni bod y weithred o ailgylchu yn debyg iawn i'r broses o gyfansoddi cerddi. Hen bethau bach a ddefnyddiwyd ac a daflwyd gan bawb arall yw geiriau, mae'n debyg, a gwaith y bardd yw eu rhoi nhw at ei gilydd mewn ffordd newydd a gwreiddiol. Casgliad y gerdd, felly, yw bod ailgylchu yn weithred gadarnhaol a chreadigol dros ben, a bod modd i ni i gyd ei fwynhau.

*

2. Gwerthfawrogiad o 'Bws Ysgol' gan Gwion Hallam (Lefel Uwch)

Cerdd rydd gan Gwion Hallam yw 'Bws Ysgol' sy'n disgrifio achos o fwlian ar fws ysgol. Er bod prif sylw'r gerdd ar y bachgen sy'n dioddef y bwlian, down i wybod hefyd am y bwllis eu hunain, ac am ymateb y disgybion eraill ar y bws i'r digwyddiad.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r bardd yn pwysleisio mai profiad poenus iawn yw cael eich bwlian. Mae'n defnyddio'r ymadroddion 'artaith byw' a 'hunllef go iawn' i'w ddisgrifio a hefyd yn dangos taw profiad unig iawn ydyw drwy osod y ddau air 'i un' ar linell ar wahân i weddill y frawddeg.

Mae'r bardd yn canolbwyntio wedyn ar brofiad y bachgen ar y bws, gan gychwyn gyda chymhariaeth drawiadol:

'Mae'n eistedd hefo'i
fag fel ffrind',

sydd nid yn unig yn tynnu sylw at unigrwydd y bachgen ond hefyd yn awgrymu'r ffordd mae hwnnw'n defnyddio'r bag fel rhywbeth i'w amddiffyn. Ar ben hynny, mae'r cyfeiriad at 'chwys' yn cadarnhau ei fod yn ofnus.

Mae'r gymhariaeth nesaf yn creu darlun dramatig ac arswydus dros ben wrth i'r bardd ddweud am y bachgen:

'fel milwr ffilm sy'n cofio'r sgript
mae'n disgwyl bang y bom,

yn paratoi at glec
grenêd y geiriau.'

Mae hyn hyd yn oed yn fwy effeithiol oherwydd yr onomatopoeia a'r cyflythrennu yn yr ymadroddion 'bang y bom' a 'clec / grenêd y geiriau'. Bron nad ydym yn gallu clywed yr ergydion sydd i ddod.

Mae'r bardd yn dyfynnu'r ergydion hynny mewn deialog sy'n cyflwyno cymeriadau annifyr y bwllis i ni. Maen nhw'n gwneud hwyl am ben y bachgen drwy ei alw'n enwau fel 'gay-boy', 'homos' a 'gê'.

Yn ddiddorol iawn, nid canolbwyntio ar ymateb y bachgen y mae'r bardd yn ei wneud wedyn. Yn hytrach, mae'n dangos i ni fod cynulleidfa ehangach i'r olygfa hon, sef y plant eraill ar y bws. Does yr un ohonyn nhw wedi ceisio amddiffyn y bachgen na herio'r bwllis:

'Haws chwerthin a chwylan
ar gelwydd sedd gefn
na gwrando ar y gwir'.

Yn y llinellau hyn, mae'r bardd unwaith eto'n defnyddio cyflythrennu i danlinellu ei deimladau tuag at y bwllis a'r sawl sy'n gwneud dim.

Mae'r tair llinell olaf wedyn yn dangos bod y bardd wedi gweld, yn yr un enghraifft hon o fwllian, ryw wirionedd mwy cyffredinol am natur bwllian ymhob man:

'gwell closio at y bwlli
na'r boi sy'n diodde
ei boen.'

Clo trist ond gonest yw hwn i gerdd sy'n ein hatgoffa bod bwllian yn realiti pob dydd i rai, a bod gennym i gyd gyfle – a chyfrifoldeb – i'w atal.

3. Cymharu Dwy Gerdd, sef 'Tro Gwael' (Gwennan Evans) ac 'Ar Lan yr Afon' (Tudur Dylan Jones)

Mae'r ddwy gerdd 'Ar Lan yr Afon' (Tudur Dylan Jones) a 'Tro Gwael' (Gwennan Evans) yn hel atgofion am berthynas tad a phlentyn.

Mae byd y campau yn chwarae rhan amlwg yn y ddwy gerdd. Er bod Tudur Dylan Jones yn mwynhau bysgota yn fwy na phob camp arall, mae'n cyfaddef mai'r rheswm mae'n trysori ei atgofion am bysgota yw oherwydd mai yng nghwmni ei dad y bu'n ei wneud. Mae hyn yn awgrymu bod ganddo feddwl mawr o'i dad.

Mae'n ymddangos bod y bachgen yng ngerdd Gwennan Evans yn hoff iawn o'i gamp yntau, sef pêldroed. Ac fel y mab yn 'Ar Lan yr Afon', mae'n amlwg bod gan y bachgen hwn feddwl mawr o'i dad hefyd a'i fod yn awyddus i'w blesio, sy'n esbonio pam mae'n gwisgo crys sy'n rhy fach iddo, yn llenwi'r albwm sticeri, yn ymarfer yn gyson ac yn gwyllo gêmâu ('fel bod ganddynt sgwrs'). Mae awgrym, serch hynny, nad yw'r tad yn byw gyda'r teulu mwyach, gan mai ei fam sy'n cael ei 'gyrru o'i cho' / â sŵn y bêl'.

Os yw 'Ar Lan yr Afon' yn gorffen yn gadarnhaol, diweddglo trist sydd i 'Tro Gwael', oherwydd pan aiff y bachgen i gwrdd â'i dad yn y parc, er mwyn iddyn nhw gael chwarae gêm, mae awgrym cryf nad yw ei dad wedi ymddangos. A gallwn ddychmygu, wedi'r holl edrych ymlaen, y byddai'r bachgen yn siomedig iawn.

Cerdd hamddenol mewn mydr ac odl yw 'Ar Lan yr Afon' sy'n dweud yn blaen fod y bardd yn hiraethu am ei blentyndod ac am y diwrnodau hynny gyda'i dad. Cerdd fwy cynnil yn y wers rydd yw 'Tro Gwael' wedyn, a cherdd sy'n llawn o ddarluniau bach byw, a'r darluniau hynny'n llawn awgrymiadau am natur perthynas y tad a'r mab.

Prin yw'r nodweddion arddull yn 'Ar Lan yr Afon', ar wahân i'r gymhariaeth sy'n dweud bod diwrnod o bysgota yn 'mynd fel eiliadau'. Ond mae gan Gwennan Evans ddau drosiad trawiadol yn 'Tro Gwael'. Y cyntaf yw 'sŵn y bêl / yn dyrnu talcen y tŷ', sydd hefyd yn cynnwys cyflythreniad ac onomatopoeia er mwyn cyfleu sŵn y bêl. O bosib bod awgrym yn y gair 'dyrnu' hefyd fod mwy na dim ond pêl wedi bod yn cael ei tharo ar yr aelwyd hon. Yr ail drosiad yw'r disgrifiad o'r mab yn 'magu'r bêl' ar y fainc

yn y parc, ac mae hwn yn ddweud da oherwydd bod 'magu' yn golygu gofalu am blentyn, yn ogystal â dal neu gario.

Er bod teimlad o golled i'w synhwyro yn 'Ar Lan yr Afon', mae'n gerdd annwyl. Cerdd ddigalon, serch hynny, yw 'Tro Gwael', cerdd sy'n ein hanesmwytho yn ei phortread o berthynas tad a phlentyn.